Menter Bro Ogwr

Cwmni Cyfyngedig drwy warrant rhif 5522274

Elusen gofrestredig 1112683

Datganiad ariannol

Am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2025

MENTER BRO OGWR

1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2025

CYNNWYS	TUD
Gwybodaeth Gweinyddol	3
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	4
Adroddiad yr archwilwyr annibynnol	7
Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol	9
Mantolen	10
Nodiadau ar y cyfrifon	11

MENTER BRO OGWR

Gwybodaeth am y Cwmni
am y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025

Enw'r Cwmni:	Menter Bro Ogwr
Cyfeiriad Cofrestredig:	Menter Bro Ogwr Neuadd y Dref Maesteg, Stryd Talbot, Maesteg, CF34 9DA
Cyfarwyddwyr:	John Thomas Brian Roderick Rhiannon Dixon Margaret Thomas
Ysgrifennydd:	Amanda Jaine Evans
Rhif Cofrestredig :	5522274 (Cymru a Lloegr)
Archwilwyr:	Curtis Bowden & Thomas Cyfyngedig 9 Court Road Bridgend CF31 1BE

MENTER BRO OGWR

Adroddiad y Cyfarwyddwyr
am y cyfnod 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025

Mae'r Cyfarwyddwyr, sydd hefyd yn Ymddiriedolwyr yr elusen at ddiben deddfwriaeth cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2025.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu'r darpariaethau yn y 'Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau 2005' wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau yma.

Gweithredu
Mae'r cwmni yn cael ei weithredu yn ôl erthyglau a memorandwm Menter Bro Ogwr. Y Bwrdd sydd yn gyfrifol am arolygu holl waith a busnes yr elusen, gyda'r aelodau'n gweithredu fel Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr. Etholir y Cyfarwyddwyr gan Gyfarfod Blynyddol Menter Bro Ogwr.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr/cyfarwyddwyr
Mae'r ymddiriedolwyr/cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am baratoi'r datganiadau cyllidol yn unol a gofynion safonau cyfrifyddol y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol. Mae cyfraith elusennau'r Deyrnas Unedig yn mynnu bod yr ymddiriedolwyr yn darparu datganiadau cyllidol am bob blwyddyn sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr yr elusen ac o incwm a thraul yr elusen am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau cyllidol mae disgwyl i'r ymddiriedolwyr:-

- dewis polisïau cyfrifyddol addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- gwneud gosodiadau sy'n rhesymol a chall;
- dweud fod safonau cyfrifyddol perthnasol a Datganiad Ymarferion a Argymhellwyd wedi cael eu dilyn heblaw am unrhyw wyriadau materol sydd wedi ei datguddio a'u hesbonio yn y datganiadau cyllidol;
- darparu datganiadau cyllidol ar sail busnes oni bai ei bod yn anaddas i gymryd yn ganiataol y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cyfrifon priodol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ac ar unrhyw adeg gyflwr cyllidol yr elusen ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau cyllidol yn cydsynio a'r Ddeddf y Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau asedau'r elusen a chan hynny i gymryd camau rhesymol i atal ac i ddarganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Mor belled ag y mae'r ymddiriedolwyr yn gwybod:

- does dim gwybodaeth perthnasol i'r archwiliad y mae'r archwilwyr yn anymwybodol ohono;
- Cymerodd yr ymddiriedolwyr y camau priodol i ddatgan eu bod yn ymwybodol o holl wybodaeth yr archwiliad ac i sicrhau bod y wybodaeth hon yn hysbys i'r archwilwyr.

Adolygiad Risg
Mae'r Bwrdd Rheoli wedi paratoi cofrestr risg sydd yn cynnwys risglau fel parhad y Fenter, materion ariannol, Iechyd a Diogelwch, staffio a'r amgylchedd ac i sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau ar y risgiau hynny.

Amcanion a Gweithgareddau

Amcanion yr elusen yw i hybu addysg a gwybodaeth cyffredinol y gymuned drwy hyrwyddo'r Iaith Gymraeg.

Mae'r Fenter yn darparu ystod eang o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mwrdeistref Penybont ar Ogwr a'r cyffiniau. Ceir brasluniau o'r gwaith ar safle gwe y Fenter www.menterbrogwr.cymru.

Mae Menter Bro Ogwr yn rhan bwysig o fywyd yr ardal ac yn cydweithredu gyda'r Cyngor Sir a nifer o fudiadau lleol. Yn ystod y flwyddyn datblygwyd nifer o weithgareddau a digwyddiadau er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith Cymry Cymraeg a Dysgwyr. Mae nifer o brosiectau eraill hefyd wedi eu cyflawni ym myd busnes a gofal plant ac mae'r Fenter o hyd yn chwilio am gyfleoedd newydd i hybu'r Gymraeg.

Mae'r Fenter yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru a'r Cyngor Sir am eu cefnogaeth ariannol i weithgareddau'r Fenter. Hefyd rhoddwyd oriau o waith gan wirfoddolwyr sy'n gweithredu ar bwyllgorau'r Fenter ac yn gweithio ar brosiectau'r Fenter. Dymuna'r cyfarwyddwyr ddiolch i bawb a gefnogodd y Fenter yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn falch i gyflwyno'r adroddiad yma a'r adroddiad ariannol o weithgarwch y Fenter. Mae'r cyfarwyddwyr wedi cymeradwyo yr adroddiad.

Budd cyhoeddus

Mae holl waith Menter Bro Ogwr yn cael ei gynllunio er budd y cyhoedd. Prif amcan y Fenter yw i hybu addysg a gwybodaeth cyffredinol y gymuned drwy hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
Gwneir hyn drwy drefnu gweithgareddau a digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'r gweithgareddau a digwyddiadau yn rhoi cyfle i bobl o bob oed gymdeithasu a gwella eu sgiliau cyfathrebu a mwynhau mewn awyrgylch cyfeillgar. Rhoddir cyhoeddusrwydd eang i'r ddarpariaeth ac anogir pobl newydd i gymryd rhan. Mae galw cynyddol am y ddarpariaeth oddi wrth y cyhoedd ym mhob rhan o'r Sir.

Ni chodir tâl am rai o'r gweithgareddau a phan mae angen codi tâl rhoddir cefnogaeth i ddefnyddio'r cymorth daliadau sydd ar gael i leihau'r gost i bobl sy'n methu talu'r pris llawn.

Polisi Arian Wrth Gefn

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried anghenion yr elusen am arian wrth gefn yn unol â chanllawiau a roddwyd gan Gomisiwn yr Elusennau ac wedi mabwysiadu y polisiau canlynol:

Polisi Cronfa Arian Wrth Gefn

Mae angen cronfa arian wrth gefn i

(a) gael arian i'w glustnodi ar gyfer prosiectau arbennig er mwyn eu datblygu neu wireddu mewn cyfnod byr ac

(b) i sicrhau fod arian ar gyfer costau gweinyddu a chynnal sy'n galluogi'r elusen i weithredu yn arbennig yn ystod y cyfnod ar ddechrau blwyddyn ariannol newydd ac

(c) Polisi yr ymddiriedolwyr yw y dylai'r Gronfa Arian Wrth Gefn fod oddeutu 14% - 18% o'r gwariant anghyfyngedig.

Ar ddiwedd Blwyddyn Ariannol 2024/25

Y gweddill oedd

Anghyfyngedig £28,210 Cyfyngedig £0

Mae'r arian wrth gefn, sef £28,210 yn ddigonol i gynnal yr elusen dros gyfnod byr. Roedd yn 24% o'r gwariant anghyfyngedig yn 2024/25

Arwyddwyd ar rhan y cyfarwyddwyr gan:

John Thomas. Ymddiriedolwr.

JOHN THOMAS.

Cyfarwyddwr

19 Tachwedd 2025

Swyddfa gofrestredig:
Menter Bro Ogwr
Neuadd y Dref Maesteg,
Stryd Talbot,
Maesteg,
CF34 9DA

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I AELODAU MENTER BRO OGWR

Rydym wedi archwilio datganiad ariannol Menter Bro Ogwr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 o Mawrth 2025 sy'n cynnwys y datganiad o weithgareddau ariannol, a'r fantolen a'r nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi, yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Paratowyd yr adroddiad hwn i ymddiriedolwyr yr elusen, fel corff, ac ar eu cyfer hwy yn unig, yn unol ag Adran 144 Deddf Elusennau 2011. Ymgymerwyd â'n gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan i ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd a heb fod at unrhyw bwrpas arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r elusen ac ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, neu am y barnau a ffurfiwyd gennym.

Priod gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r Archwilwyr

Fel yr esbonnir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr, y mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni at ddibenion y gyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig) ac am fod yn fodlon bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi dewis i'r datganiadau ariannol gael eu harchwilio yn unol â Deddf Elusennau 2011 yn hytrach na Deddf Cwmnïau 2006. Yn unol â hynny, rydym wedi ein penodi fel archwilwyr o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac adroddwn yn unol ag adran 154 y Ddeddf honno. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol a datgan barn arnynt yn unol â'r gyfraith berthnasol ac â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y DU ac Iwerddon). Y mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Rhoddir disgrifiad o gwmpas archwiliad o ddatganiadau ariannol ar wefan y Bwrdd Arferion Archwilio www.frc.org.uk/apb/scope/private.cfm

Barn

Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion y cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2025 ac o'i adnoddau sy'n dod i mewn ac o ddefnyddio adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac

- Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac

- Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I AELODAU MENTER BRO OGWR

Materion y mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd o ran y materion canlynol, y mae Deddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni gyflwyno adroddiad i chi arnynt, os barnwn:

- fod y wybodaeth a roddir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw ffordd o bwys â'r datganiadau ariannol; neu
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyfateb i'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- Nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae arnom eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

4/12/2025

Stephen Davies
Archwiliwr Annibynnol
Ar gyfer: Curtis Bowden & Thomas Cyfyngedig
Cyfrifwyr Siartredig Ardystiedig a
Archwilwyr Statudol
9 Court Road
Penybont ar Ogwr
CF31 1BE

Menter Bro Ogwr

Cwmni cyfyngedig trwy warant rhif: 5522274

Elusen gofrestredig rhif: 1112683

Datganiad o Weithgareddau Ariannol

Incwm a Gwariant am y Flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	**Cyfanswm 2024/2025**	Cyfanswm 2023/2024
Adnoddau a dderbyniwyd				
Grantiau	90,205		90,205	82,925
Rhoddion	-		-	-
Llog Banc	227		227	227
Incwm Cadi Arian	35,905		35,905	31,983
Incwm arall	-		-	-
Cyfanswm derbyniwyd	126,337		126,337	115,135
Adnoddau a wariwyd				
Elusennol uniongyrchol				
Gweithgaredd	111,106		111,106	115,435
Costau Cynnal	2,783		2,783	2,908
Gwariant arall				
Cyhoeddusrwydd				
Rheoli a gweinyddu	3,500		3,500	3,331
Siop Yr Hen Bont				
Cyfanswm a wariwyd	117,389		117,389	121,674
Adnoddau net a dderbyniwyd	8,948		8,948	-6,539
Balansau a ddygwyd ymlaen	19,262		19,262	25,801
Balansau a gariwyd ymlaen	28,210		28,210	19,262

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr holl enillion a cholledion y flwyddyn

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Menter Bro Ogwr

Cwmni cyfyngedig trwy warant rhif: 5522274

Elusen gofrestredig rhif: 1112683

Datganiad o Weithgareddau Ariannol

Mantolen ar 31 Mawrth 2025

	2024	2024
Asedau Sefydlog	£	£
Asedau Anghyffyrddadwy		
Asedion Cyffyrddadwy		
Buddsoddiadau		
Cyfanswm asedion sefydlog	-	-
Asedion Cyfredol		
Stociau		
Dyledwyr	-	-
Arian yn y Banc ac mewn llaw	28,210	19,262
Cyfanswm asedion cyfredol	28,210	19,262
Credydwyr tymor byr	-	-
Asedion Cyfredol Net	28,210	19,262
Cronfeydd		
Cronfeydd anghyfyngedig	28,210	19,262
Cronfeydd cyfyngedig		
Cyfanswm y Cronfeydd	28,210	19,262

Mae'r datganiadau ariannol yma wedi eu paratoi yn ôl y darpariaethau arbennig yn Rhan VII o ddeddf y Cwmnïau 2006 yn ymwneud â chwmniau bach ac yn unol a Safonau Cymwys ar gyfer Endidau Bach (Ebrill 2008)

Cymeradwywyd y cyfrifon gan y Cyfarwyddwyr ac fe'u harwyddwyd ar eu rhan gan:

John Thomas Ysgrifennydd.

JOHN THOMAS.

MENTER BRO OGWR

Nodiadau i'r Datganiad Ariannol

Polisiau cyfrifo

Y sail cyfrifo

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi o dan y confensiwn costau hanesyddol ac yn unol a safonau cyfrif cymwys ar gyfer Endidau Bach (mewn grym Ebrill 2008). Dilynir hefyd y Ddeddf Elusennau 2011 a'r datganiad o ymarferion a gynhwysir yn 'Adrodd a Chyfrifo am Elusennau: Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau (SORP)' a gyhoeddwyd ym Mawrth 2005.

Incwm Gwirfoddol

Derbyniwyd incwm gwirfoddol mewn ffurf rhoddion ac fe gynhwysir yn llawn yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol pan yn ddyledus. Ni chynwysir yn y cyfrifon gwerth y gwasanaeth a roddwyd gan wirfoddolwyr gan nad ydym yn gallu mesur y swm gan ddibynadwyaeth digonol. Caiff incwm o fuddsoddiadau eu credydu wrth eu derbyn.

Dibrislant

Nid yw'r tir yn cael ei ddibrisio. Dibrisir asedion sefydlog y cwmni ar raddfeydd er mwyn lleihau cost yr ased, llai eu gwerth gweddilliol, dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased fel a ganlyn: Offer a chyfarpar 33.33% ar gost

Grantiau

Caiff grantiau eu cynnwys yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol pan yn ddyledus.

Treth

Mae Menter Bro Ogwr yn elusen gofrestredig ac felly yn rhydd o dalu treth corfforaethol ar ei weithgareddau elusennol.

Menter Bro Ogwr

Cwmni Cyfyngedig drwy warrant rhif 5622274

Elusen gofrestredig 1112683

Derbyniadau a Threuliau am y Flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Derbyniadau

Llywodraeth Cymru	60,000.00
Clwb ar ol ysgol	30401
Gwelthgareddau	4854
Yr Hogwr	2775
Cyngor Llyfrau	150
Mentrau Iaith Cymru	500
Grant Strategaeth Llywodraeth Cymru	3165
Cyngor Pen-y-bont	22115
BAVO	1650
Cyngor Tref Maesteg	500
Cyfanswm	**£126,110**
Llog cyf cadw	£227
Cyfanswm	126,337
Cyfanswm Derbyniadau	**126,337**

Treuliau

Cyflogau	95,913
Telthio / Treuliau	3,619
Swyddfa	2,783
Clwb ar ôl Ysgol	790
Ysgwrlant	2,663
Aelodaeth	1,000
Ffôn	765
Gwelthgareddau	2,323
Yr Hogwr	5,240
Hyfforddiant	858
Metro Self-Storage	1,363
Costau Banc	72
Cyfanswm	**117,389**
Trosglwyddiadau Banc	
Derbyniad Cyfrif Cadw	23000
Derbyniad Cyfrif Cyfredol	40,266
Cyfanswm Treuliau	**180,655**

GRYNODEB

Cronfa Anghyfyngedig

Cyfanswm derbyniwyd	126,337
Cyfanswm a wariwyd	117389
Adnoddau net a dderbyniwyd	8,948
Balans dygwyd ymlaen	19,262
Balans gariwyd ymlaen	28210

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024-2025
MENTER BRO OGWR

Mae'r Fenter yn hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gydweithio â mudiadau, cymdeithasau, busnesau, dysgwyr ac ysgolion. Bwriad y Fenter yw codi proffil yr iaith Gymraeg yn y sir gan gynyddu cyfleoedd trigolion o bob oedran i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o feysydd.

MENTRAU IAITH

CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod 1af Ebrill 2024 hyd at 31 Mawrth 2025, gan dynnu sylw at waith a'r effaith y mae Menter Bro Ogwr wedi'i wneud i gefnogi defnydd o'r Gymraeg, ymgysylltu diwylliannol, a datblygu cymunedol. Nod y sefydliad yw hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gydweithio â mudiadau, cymdeithasau, busnesau, dysgwyr ac ysgolion. Bwriad y Fenter yw codi proffil yr iaith Gymraeg yn y sir gan gynyddu cyfleoedd i drigolion o bob oedran ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o feysydd, gan ddarparu cyfleoedd addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i blant, pobl ifanc, oedolion a'r gymuned ehangach ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont.

MANYLION CYFEIRIO A GWEINYDDOL

Enw'r Elusen: Menter Bro Ogwr
Rhif Elusen Gofrestredig: 1112683
Rhif Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant: 5522274
Swyddfa Gofrestredig:
Menter Bro Ogwr
Neuadd y Dref Maesteg,
Stryd Talbot,
Maesteg,
CF34 9DA

Ymddiriedolwyr yn ystod y cyfnod (gyda rolau):
Daniel Lloyd Evans - Cadeirydd (penodiad wedi'i derfynu gan y Bwrdd ar 08.10.25)
Rhiannon Dixon - Is-gadeirydd
John Thomas - Trysorydd
Brian Roderick - Ymddiriedolwr
Margaret Thomas - Ymddiriedolwr
Amanda Jaine Evans - Ysgrifennydd y Cwmni

Prif Swyddogion:
Amanda Jaine Evans - Prif Swyddog
Kathryn Campbell - Swyddog Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
Sophie Williams - Uwch-weithiwr Chwarae
Lily Corless - Gweithiwr Chwarae
Rhiannon Thomas - Uwch-weithiwr Chwarae
Enid Thomas - Gweithiwr Chwarae
Holly-May Brown - Gweithiwr Chwarae
Shaneece Jurkiewicz - Gweithiwr Chwarae
Arholwr Annibynnol:

Curtis Bowden & Thomas Cyfyngedig
9 Court Road
Bridgend
CF31 1BE

Banc:
HSBC
3 Windsor Road,
Neath Port Talbot,
SA11 1LN

EIN GWELEDIGAETH A'N AMCANION

- Codi hyder a sgiliau iaith siaradwyr Cymraeg.
- Hybu a hwyluso gweithgareddau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Annog y di-Gymraeg a mewnfudwyr i ddysgu'r iaith.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym myd busnes.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan fudiadau gwirfoddol.
- Dylanwadu ar bolisiau cyrff cyhoeddus.
- Codi proffi yr iaith.
- Darparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc gwrdd a chymdeithasu yn y Gymraeg.

PWY YDYM NI: CWRDD Â'R STAFF



LLYWODRAETHU

Recriwtio a Chynefino Ymddiriedolwyr

Mae Menter Bro Ogwr yn recriwtio ei Hymddiriedolwyr drwy'r aelodau o'r Is-bwyllgor Rheoli. Gall unigolion ddod yn aelodau os ydynt yn bodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol: eu bod yn byw ym Mro Ogwr, wedi byw ym Mro Ogwr, yn gweithio'n rhannol neu'n gyfan gwbl ym Mro Ogwr, neu'n aelod o gymdeithas sy'n cwrdd ym Mro Ogwr. Wedi dod yn aelodau, gallant wedyn gael eu penodi i'r Bwrdd Rheoli fel Ymddiriedolwyr. Unwaith y bydd aelod yn cael ei benodi, mae'r broses o gynefino yn cynnwys cyflwyno strwythur a gweithdrefnau'r Fenter, polisïau allweddol, a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr, gan sicrhau eu bod yn deall eu dyletswyddau cyfreithiol a moesegol wrth gefnogi nodau a gweithgareddau'r elusen. Mae'r broses hon yn sicrhau bod Ymddiriedolwyr newydd yn barod i gyfrannu'n effeithiol ac i gynnal goruchwyliaeth gyfrifol o'r sefydliad.

MENTER BRO OGWR - ELUSEN GOFRESTREDIG RHIF: 1112683. CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT RHIF: 5522274

PWY YDYM NI: BWRDD RHEOLI

Daniel Lloyd Evans
Cadeirydd
(penodiad wedi'i derfynu gan y Bwrdd ar 08.10.25)

Rhiannon Dixon
Is-gadeirydd

John Thomas
Trysorydd

Brian Roderick

Margaret Thomas

Amanda Jaine Evans
Ysgrifennydd y Cwmni

Cwrdd â'r Aelodau Is-bwyllgor Rheoli.
Sioned Treharne
Anwen Dixon



STRWYTHUR A RHEOLI

Strwythur Cyfreithiol

Math o Sefydliad:
Menter Bro Ogwr yw elusen gofrestredig a hefyd cwmni cyfyngedig. Mae hyn yn golygu ei bod yn gweithredu fel elusen gyda'r statws cyfreithiol a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â hynny, wrth gael strwythur cwmni i reoli cyfrifoldebau ariannol a gweinyddol yn effeithlon.

- Elusen gofrestredig rhif: 1112683
- Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant rhif: 5522274
- Adeiladwyd ar gyfraith elusennol a chyfreithiol briodol

Polisïau Allweddol

- Diogelu Plant a Phobl Ifanc
- Iechyd a Diogelwch
- Cydraddoldeb a Chynhwysiant
- Gwirfoddoli
- Rheoli Risg
- Diogelu Data / GDPR

Goruchwyliaeth a Rheolaeth

- Ymddiriedolwyr yn goruchwylio strategaeth, cyllid a chydymffurfiaeth.
- Mae'r bwrdd yn cael el gefnogi gan staff sy'n gyfrifol am weithrediad dydd-i-dydd y Fenter.
- Cyfarfodydd a phenderfyniadau allweddol: nifer o gyfarfodydd misol y bwrdd, grwpiau danfon polisi, ac unrhyw weithdrefnau monitro.

Datganiad Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr
Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gynrychiolwyr y cwmni elusennol) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig. Ni ddylai'r ymddiriedolwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi trosolwg gwirioneddol a theg o gyflwr materion yr elusen a'i hadnoddau sy'n dod i mewn a sut y caiff y cyllid ei ddefnyddio.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau, wrth baratoi'r datganiadau ariannol, eu bod wedi:
• dewis polisïau cyfrifyddu priodol;
• gwneud barn resymol a phrydlon;
• dilyn canllawiau a rheoliadau perthnasol gan gynnwys SORP Elusennol (FRS 102).

Cymeradwywyd yr adroddiad hwn gan yr ymddiriedolwyr ar 04.12.25 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:
Rhiannon Dixon, Ymddiriedolwr.

Rheoli Risg
Mae'r ymddiriedolwyr yn adolygu'n rheolaidd y risgiau allweddol sy'n wynebu'r elusen, gan gynnwys ansicrwydd ariannu, diogelu, capasiti staff, rhwymedigaethau cydymffurfio a chyflwyno gweithrediadau. Mae'r mesurau lleihau risg yn cynnwys polisïau sefydledig, hyfforddiant staff, cydweithio mewn partneriaethau, goruchwyliaeth llywodraethu, a chynllunio ariannol. Mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon bod systemau priodol ar waith i reoli a monitro'r risgiau hyn.

GWEITHGAREDDAU A CHYFLAWNIADAU

Plant a Phobl Ifanc (0–25 oed)

Mae'r adran hon yn tynnu sylw at y gwaith a'r gweithgareddau a gynhaliwyd dros y flwyddyn i blant a phobl ifanc (0–25 oed), gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol, gweithgareddau gwyliau, prosiectau arweinir gan bobl ifanc, a gweithgareddau cymdeithasol a datblygiad sgiliau. Mae'r prosiectau hyn wedi bod yn allweddol i hybu defnyddio'r Gymraeg, datblygu hyder a sgiliau personol, a meithrin ymwybyddiaeth o ddiwylliant a hanes Cymru.

Clybiau ar ôl ysgol a gweithgareddau gwyliau

- Bu **clybiau ar ôl ysgol** bob dydd yn Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Ogwr ac Ysgol Cynwyd Sant, gan gynnig cymorth gyda gwaith cartref, datblygu sgiliau, gweithgareddau corfforol, a defnyddio'r Gymraeg.
- Cynhaliwyd **clybiau gwyliau**, gan gynnwys **Clwb Ceidwaid Coetir**, i roi cyfle i blant archwilio natur, bywyd gwyllt, a chrefftau.
- Cynhaliwyd wyth **cynllun chwarae haf** i roi cyfle i blant gymdeithasu a defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.
- Cynhaliwyd **Clybiau Sbort a Sbri** wythnosol mewn tair ysgol gynradd i annog defnyddio'r Gymraeg mewn ffordd anffurfiol, gan sicrhau mynediad cyfartal i bawb.

Data gweithgareddau:

Math o Weithgaredd	Nifer y Gweithgareddau	Nifer y Cyfranogwyr
Gweithgareddau i blant	248	273
Gweithgareddau i bobl ifanc (11–25 oed)	54	80

Clybiau Ieuenctid a Chyfranogiad

- Clwb ieuenctid bob amser cinio yn **Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd**, gyda gweithgareddau ffurfiol (tîm, cyfathrebu, gyrfaoedd) ac anffurfiol (gemau bwrdd, ping pong, celf, cerddoriaeth Gymraeg).
- **Sesiynau galw mewn bob dydd i ddisgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd**, er mwyn cynnig cymorth ychwanegol gyda gwaith cartref, ateb cwestiynau, datblygu sgiliau dysgu, a hybu defnyddio'r Gymraeg mewn amgylchedd cefnogol ac anffurfiol.
- Datblygwyd pecynnau gweithgaredd i ysgolion Saesneg a sefydliadau ieuenctid i gynyddu defnydd a gwybodaeth am y Gymraeg.

Prosiectau a Grantiau a Arweinir gan Bobl Ifanc

- **Grantiau dan arweiniad ieuenctid**: 10 o bobl ifanc yn arwain sesiynau ar gyfer 96 o gyfranogwyr, gan ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth, gwirfoddoli a hyder ieithyddol.
- **Prosiect Gwlad**: Prosiect pedair wythnos, gyda 131 o bobl ifanc a 27 o staff yn archwilio hanes, diwylliant a'r Gymraeg, gan greu gwaith celf ac ymgysylltu'n greadigol.

Canlyniadau allweddol i bobl ifanc

- Hyder uwch a pharodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.
- Gwybodaeth well am ddiwylliant a hanes Cymru.
- Proflad arweinyddiaeth a gwirfoddoli.

Teuluoedd

Mae sicrhau ein bod yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau i deuluoedd yn rhan bwysig o wasanaeth Menter Bro Ogwr. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r ddarpariaeth wedi cynnwys gweithgareddau a digwyddiadau sy'n cefnogi defnydd y Gymraeg yn y cartref a chymunedol, gan gynnig cyfleoedd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol.

Gweithgareddau

- Digwyddiadau Helfa Drysor i'r Teulu, gan roi cyfle i deuluoedd ymlacio, mwynhau awyr iach, diddanu plant, a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sesiynau Stori a Chrefft mewn llyfrgelloedd, gan hybu defnydd Cymraeg rhwng rhieni a'u plant a meithrin hyder rhieni i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd anffurfiol.
- Stondinau gwybodaeth mewn ysgolion a llyfrgelloedd, gan rannu gwybodaeth am fanteision dwyieithrwydd a'r cymorth sydd ar gael i deuluoedd.
- Cyrsiau Camu'n Hyderus ar gyfer rhieni Cylch Tî a Fi ym Mhorthcawl ac ym Maesteg, gyda gweithgareddau cartref ac ymweliadau ag ysgolion cyfrwng Cymraeg i gryfhau cysylltiad rhwng gweithgareddau a chamau nesaf teuluoedd ar eu taith ddwyieithog.
- Cyflwyno oplau dwyieithog am ddim o rhaglenni cyfrwng Cymraeg i deuluoedd, gan ddarparu cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r iaith y tu allan i leoliadau ffurfiol.

Data Gweithgareddau:

Math o Weithgaredd	Nifer y Gweithgareddau	Nifer y Cyfranogwyr
Gweithgareddau i deuluoedd	**7**	**212 o blant	145 o oedolion**

MENTER BRO OGWR - ELUSEN GOFRESTREDIG RHIF: 1112583. CWMNI CYFYNGEDIG DRWY WARANT RHIF 9522274

Effaith

- Cynnydd mewn hyder rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gartref ac yn y gymuned.
- Rhieni a'u plant yn defnyddio geiriau a brawddegau Cymraeg yn ddyddiol, gan gynnwys amser chwarae, bwyta a darllen.
- Torri rhwystrau i ddefnyddio'r Gymraeg, gan greu profiadau cadarnhaol ac ysbrydoledig.
- Meithrin perthynas agosach rhwng teuluoedd a'r Fenter, gan eu galluogi i ofyn cwestiynau a cheisio cymorth wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant.

Oedolion

Mae'r adran hon yn tynnu sylw at weithgareddau a gynhaliwyd i oedolion, gan gynnwys sesiynau wythnosol, bore coffi, sesiynau ar-lein, a gweithgareddau Gofalu yn Gymraeg yng Nghartref Foxtroy. Nod y gweithgareddau hyn oedd darparu cyfleoedd cymdeithasol, hybu defnyddio'r Gymraeg yn ymarferol, a chefnogi datblygiad personol a sgiliau'r staff.

- Cynhaliwyd saith sesiwn wythnosol i oedolion, gan roi cyfleoedd cymdeithasol a chymunedol. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys bore coffi, sesiynau ar-lein, a grŵp cerdded Cam Ymlaen.
- Cynhaliwyd sesiynau wythnosol Gofalu yn Gymraeg yng Nghartref Foxtroy. Roedd y gweithgareddau hyn yn rhoi cyfle i'r preswylwyr sy'n dioddef o ddementia siarad Cymraeg a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol. Hefyd, roedd yn gyfle i'r staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a'u defnyddio yn y gweithle, gan gefnogi datblygiad personol a phroffesiynol.

Canlyniadau allweddol i oedolion:

• Darparwyd cyfleoedd cymdeithasol, i godi hyder, a defnyddio'r Gymraeg yn ymarferol.
• Hyfforddodd staff Cartref Foxtroy i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r preswylwyr a chynnal gweithgareddau dwyieithog.

Data gweithgareddau:

Math o Weithgaredd	Nifer y Gweithgareddau	Nifer y Cyfranogwyr
Gweithgareddau i oedolion	138	145

POLISI CRONFEYDD A DATGANIAD PARHAD Y FENTER

Archwiliad Annibynnol
Mae datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 wedi cael eu harchwilio'n annibynnol gan Curtis Bowden & Thomas Cyfyngedig yn unol â gofynion Comisiwn yr Elusennau a Deddf Cwmnïau 2006.

Mae'r cyfrifon a'r adroddiad archwilydd llawn wedi'u cyflwyno'n ar wahân ar ochr yr Adroddiad Blynyddol hwn.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, mae'r Fenter wedi parhau i reoli ei chyllid yn ofalus ac mewn modd sy'n cefnogi ein hamcanion elusennol. Derbyniwyd incwm o nifer o ffynonellau gan gynnwys grantiau craidd a grantiau proslect, ynghyd ag incwm o weithgareddau cymunedol a phartneriaethau. Roedd cyfanswm yr incwm ar gyfer y flwyddyn yn £126,337 a'r gwariant yn £117,389, gyda'r adnoddau'n cael eu defnyddio i gynnal ein gwasanaethau a'n gweithgareddau yn y gymuned.

Mae'r cyfrifon blynyddol llawn yn cael eu cyflwyno ar wahân i'r adroddiad hwn ac maent yn cynnwys datganiad manwl o incwm, gwariant a sefyllfa ariannol y Fenter. Mae'r cyfrifon wedi cael eu harchwilio gan Curtis Bowden & Thomas Cyfyngedig yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau a deddfwriaeth berthnasol.

Mae'r Bwrdd Rheoli yn fodlon bod sefyllfa ariannol y Fenter yn gadarn ac yn cael ei reoli'n effeithiol, gan alluogi'r sefydliad i barhau i gyflawni ei nodau ac i gefnogi'r gymuned yn y tymor byr a'r tymor hir.

Polisi Cronfeydd wrth Gefn
Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried anghenion yr elusen am arian wrth gefn yn unol â chanllawiau a roddwyd gan Gomisiwn yr Elusennau ac wedi mabwysiadu'r polisïau canlynol:

Polisi Cronfa Arian Wrth Gefn
Mae angen cronfa arian wrth gefn i:
(a) gael arian i'w glustnodi ar gyfer proslectau arbennig er mwyn eu datblygu neu eu gweithredu mewn cyfnod byr;
(b) sicrhau fod arian ar gyfer costau gweinyddu a chynnal sy'n galluogi'r elusen i weithredu'n rheolaidd yn ystod y cyfnod ar ddechrau blwyddyn ariannol newydd; ac
(c) polisi'r ymddiriedolwyr yw y dylai'r Gronfa Arian Wrth Gefn fod oddeutu 14% - 18% o'r gwariant anghyfyngedig.

Ar ddiwedd Blwyddyn Ariannol 2024/25
Y gweddill oedd:
Anghyfyngedig: £28,210
Cyfyngedig: £0

Mae'r arian wrth gefn, sef £28,210, yn ddigonol i gynnal yr elusen dros gyfnod byr. Roedd hyn yn cyfateb i 24% o'r gwariant anghyfyngedig yn 2024/25.

Trafodion â Phartïon Perthynol
Ni dderbyniodd unrhyw ymddiriedolwr unrhyw lawndal am eu rôl yn ystod y flwyddyn, ac ni hawliwyd unrhyw dreuliau.
Ni fu unrhyw drafodion â phartïon perthynol yn ystod y flwyddyn ariannol.

CYMUNED A GWEITHGAREDD PARTNERIAETH

Mae'r adran hon yn tynnu sylw at weithgareddau a phartneriaethau Menter Bro Ogwr gyda chymunedau, ysgolion, a sefydliadau ieuenctid, a'r effaith sydd wedi'i chael ar hybu'r Gymraeg a chymunedau lleol.

Symudwyd ein swyddfa i Neuadd y Dref Maesteg yn Ionawr 2025 i gryfhau ein partneriaethau gwaith gydag AWEN, gan sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau lleol a dod â'n gweledigaeth ni a gweledigaeth AWEN at ei gilydd. **Mae'r symudiad hwn wedi galluogi cydweithredu agosach ar brosiectau cymunedol ac wedi cryfhau ein hymdrechion ar y cyd i ddarparu gweithgareddau diwylliannol Cymraeg deniadol.**

Gweithgareddau a Phartneriaethau:
Partneriaeth gydag **AWEN** i gryfhau grymuso cymunedol a darparu gweithgareddau diwylliannol Cymraeg, gan gynnwys theatr, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, a pharc gwledig.

Cynhaliwyd digwyddiadau fel **Gŵyl Ogi Ogi Ogwr** (450+ cyfranogwr) a **Gŵyl Ffilm Cwm Llynfi** i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant.
Prosiectau ysgolion a sefydliadau ieuenctid: **Gemau Buarth, Ymweliad Y Fari Lwyd, Cwis Dim Clem.**
Partneriaethau gyda Dysgu Cymraeg, Coleg Pen-y-bont, a chynghorau lleol, wedi ehangu cyrhaeddiad a hyrwyddo dysgu gydol oes.

Effaith

- Creu rhwydweithiau Cymraeg cryfach a chynaliadwy.
- Cynyddu gwelededd y Gymraeg mewn lleoliadau cymunedol.
- Meithrin cydlyniad cymunedol a datblygiad personol trwy wirfoddoli.

MARCHNATA A CHYFATHREBU

Mae'r adran hon yn tynnu sylw at weithgareddau marchnata a chyfathrebu Menter Bro Ogwr, gan amlygu sut y cafodd gweithgareddau a digwyddiadau eu hyrwyddo, eu dosbarthu, a'u cydnabod yn lleol a digidol, gan sicrhau cyrhaeddiad eang a thryloywder ariannu.

- Hyrwyddo gweithgareddau drwy **Facebook, Instagram a Twitter** gyda chyrhaeddiad o 4,038 o bobl.
- Taflenni, posteri a rhwydweithiau ysgolion a systemau negeseuon testun i gysylltu'n uniongyrchol gyda theuluoedd.
- Sylw cyfryngau lleol, gan gynnwys eitemau yn **Yr Hogwr**.
- Pob deunydd yn cynnwys logo Llywodraeth Cymru ac egluro ariannu.

PAPUR BRO YR HOGWR

Mae Menter Bro Ogwr wedi parhau i gyhoeddi'r Hogwr, papur bro gymunedol Cymraeg ar gyfer ardal Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n cael ei gyhoeddi'n fisol gan bobl leol o fewn y cymunedau lleol.

Rydym yn ymwybodol iawn o gyfraniad arbennig Yr Hogwr at gynnal a hyrwyddo bywyd Cymraeg yn y gymuned, gan ei fod wedi gosod sylfaen bwysig i waith Menter Bro Ogwr dros y blynyddoedd. Yn ystod y cyfnod hwn, llwyddwyd i ddenu erthyglau gan gynulleidfaoedd newydd, gan ehangu'r llais Cymraeg lleol.

Mae'r papur yn parhau i ddibynnu ar dîm ymroddedig o wirfoddolwyr, ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sy'n cyfrannu at ei lwyddiant parhaus. Edrychwn ymlaen at flynyddoedd pellach o gyhoeddi'r Hogwr fel rhan ganolog o fywyd Cymraeg Pen-y-bont ar Ogwr.

GWERSI A HERIAU

Mae'r adran hon yn tynnu sylw at lwyddiannau, heriau, a'r gwersi dysgedig a ddysgwyd dros y flwyddyn, gan adlewyrchu gwaith Menter Bro Ogwr a'r strategaethau ar gyfer gwella a chynaladwyedd yn y dyfodol.

Llwyddiannau:

- Partneriaethau cryf gyda sefydliadau lleol.
- Cyfleoedd pleserus i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.
- Presenoldeb cryf mewn digwyddiadau cymunedol.

Heriau:

- Recriwtio staff addas ar gyfer darpariaeth ar ôl ysgol.
- Cydbwyso gofynion newydd gyda'r ddarpariaeth graidd.

Gwersi Dysgedig:

- Strategaethau hyblyg a phartneriaethau cryf yn allweddol.
- Adolygu capasiti a gweithlu yn hanfodol ar gyfer cynaladwyedd.
- Dangos effaith gwaith y Fenter yn allweddol i sicrhau cefnogaeth barhaus.

CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL

Mae'r adran hon yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan ganolbwyntio ar ehangu prosiectau, cydweithio gyda phartneriaid, datblygu capasiti staff, a chynnal model cynaliadwy, cynhwysol a chymunedol i bob oed.

- Ehangu Prosiect Gwlad.
- Parhau i weithio gydag AWEN, ysgolion a sefydliadau cymunedol.
- Gwella capasiti staff ar gyfer darpariaeth ar ôl ysgol a phobl ifanc.
- Cynnal model cynaliadwy, cynhwysol a chymunedol i bob oed.

DATGANIAD BUDD CYHOEDDUS

Mae Menter Bro Ogwr yn darparu budd cyhoeddus trwy:

- Cynyddu defnydd o'r Gymraeg ym mhob grŵp oedran.
- Cynnig cyfleoedd cynhwysol mewn addysg, diwylliant a hamdden.
- Hybu cydlyniad cymunedol a datblygiad personol trwy wirfoddoli ac arweinyddiaeth. Cynyddu defnydd o'r Gymraeg ymhob grŵp oedran.

CASGLIAD

Yn ystod y cyfnod rhwng 1af Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, mae Menter Bro Ogwr wedi parhau i gyflawni ei nodau o hybu a chryfhau defnydd y Gymraeg ymysg pob grŵp oedran. Trwy weithgareddau amrywiol i blant, pobl ifanc, teuluoedd a phobl oedolion, mae'r Fenter wedi meithrin hyder, sgiliau iaith, a gwybodaeth ddiwylliannol. Mae'r prosiectau a'r partneriaethau a gynhaliwyd wedi galluogi trigolion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol, a digwyddiadau cymdeithasol.

Mae'r Fenter wedi dangos gwerth mawr wrth ddarparu cyfleoedd i arweinyddiaeth ieuenctid, gwirfoddoli, a datblygu personol, ac wedi meithrin rhwydweithiau cryf Cymraeg mewn cymunedau lleol. Er bod heriau megis recriwtio staff ac ymateb i ofynion newydd yn parhau, mae'r gwersi a ddysgwyd yn cadarnhau bod partneriaethau cryf, strategaethau hyblyg, a throsglwyddo effaith yn allweddol i gynaladwyedd y sefydliad.

Wrth edrych ymlaen, mae cynlluniau Menter Bro Ogwr i ehangu prosiectau, datblygu capasiti staff, a chynnal model cynaliadwy, cynhwysol a chymunedol yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, meithrin cydlyniad cymunedol, a darparu budd cyhoeddus i bawb yn y sir. Mae'r adroddiad hwn yn tystio i'r effaith gadarnhaol y mae'r Fenter wedi'i chael ar y gymuned, ac yn nodi llwybr clir ar gyfer datblygiad a lles y Gymraeg yn y dyfodol.

Cymeradwyaeth yr Adroddiad

Cymeradwywyd yr adroddiad hwn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 04.12.25

Wedi'i lofnodi ar ran yr ymddiriedolwyr:

Enw: RHIANNON DIXON

Swydd: CADEIRYDD

Llofnod: .....

MENTRAU IAITH